# YMGYRCH CYMRU

CYLCHLYTHYR CND CYMRU Rhif 9 AWST/MEDI **(Copïau ychwanegol 15c)**



# BOMIAU NEWYDD AM HEN

Roedd diarfogi yn y newyddion pan lansiodd CND Cymru ei ymgrych newydd yn erbyn Trident ar Fai 31ain.
Wrth gwrs, ni wnaethom ddenu sylw gwŷr y wasg ar ein pennau ein hunain. Roeddem ni wedi dewis wythnos pan oedd Ronald Reagan a Mikhail Gorbachev yn arwyddo Cytundeb INF ym Moscow, y Cenhadloedd Unedig yn cychwyn eu trydydd Sesiwn Arbennig ar Ddiarfogi yn Efrog Newydd, a Neil Kinnock yn cyhoeddi ei fod wedi newid ei feddwl ynglŷn â diarfogi unochrog.
Roedd diddordeb y wasg mewn arfau niwcliar yn help garw i'n hymgyrch a chafodd gychwyn da gyda chryn sylw yn cael ei roi i'r cyfarfod lansio. Yn bwysicach, parodd hyn i'r cyhoedd fod yn fwy parod i weld synnwyr ein neges.
Rhannodd grwpiau CND dros 100,000 o bamffledi'n gwrthwynebu Trident ym mhob cwr o Gymru rhwng diwedd Mai a chanol Mehefin yn yr ymgyrch gyhoeddusrwydd fwyaf a drefnodd CND Cymru erioed. Mewn rhai ardaloedd — megis Penarth — derbyniodd pob cartref gopi o'r pamffled.

**NA I TRIDENT**

**11 y cant yn unig o bobl Prydain sydd eisiau'r Llywodraeth i gario ymlaen gyda'r system llawn o longau tanfor Trident, yn ôl arolwg barn Marplan.**
**Mae'r arolwg barn yn dangos 65% o blaid "rhewi" arfau niwcliar newydd, gyda 67% o Doriaid, 66% Llafur a 73% SLD/SDP yn cytuno.**
**Comisiynwd yr arolwg gan ymgyrch y "Freeze".**

Yr un pryd, sgrifennodd CND Cymru at yr holl Aelodau Seneddol Cymreig yn eu hannog i bwyso am gyfraniad Prydeinig positif yn Sesiwn Arbennig y Cenhedloedd Unedig. Pwysleisiwyd na wnaeth Llywodraeth Thatcher yr ymdrech leiaf er Sesiwn Arbennig 1982 i ddod â 'diarfogi cyffredinol a chyflawn' yn nes.
Canolbwyntiodd ein llythyr ar y cynllun Trident a'r bwriad i ddatblygu taflegrau niwcliar newydd a lansir o awyrennau — sy'n hollol groes i addewidion rhyngwladol y Llywodraeth i feithrin diarfogi. Fel y gellid disgwyl cafwyd ymateb tra gwahanol gan bob un o'r pleidiau gwleidyddol.



*Rhodri Glyn Thomas with model of the Trident 'Jaws', available to groups — contact James Stewart if you'd like to use it.*

*Rhodri Glyn Thomas gyda model y llong Trident 'Jaws', ar gael oddi wrth James Stewart, os ydi grwpiau eisiau'i ddefnyddio.*

Yr her i CND Cymru yn awr yw parhau'r ymgyrch yn erbyn Trident a'r systemau arfau eraill y bwriedir eu datblygu gan NATO gan ail-wampio'r arfau a waharddwyd gan y Cytundeb INF.
Bwriedir cychwyn ymgrych o fewn y Blaid Lafur i sicrhau cefnogaeth eang i bolisi amddiffyn di-niwcliar a di-lol. Ond nid yw hyn ond un ochr i'r geiniog. Anogir grwpiau CND i barhau eu gweithgareddau cyhoeddusrwydd drwy ddatblygu'r ymgyrch Trident a'i chysylltu â phynciau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Awgryma'r slogannau "Gwasanaeth Lles nid rhes o arfau" a "Triniaeth nid Trident" gyswllt amlwg â'r toriadau yn y gwasanaeth cymdeithasol a chyflwr enbydus y Gwasanaeth Iechyd.
Nid gwario mawr unwaith ac am byth mo Trident chwaith. Bydd cost dileu Polaris a chynnal Trident yn ystod 20-30 mlynedd ei fywyd 'defnyddiol' yn ddegau o filoedd o filiynau. Disgwylir y bydd y taflegryn newydd a lansir o awyrennau'r Llu Awyr yn costio £3 biliwn arall. Mae'n rhaid i ni dynnu sylw at y gwastraff cywilyddus hwn o arian cyhoeddus a dangos sut y gellid ei wario er lles pawb.
Dywedodd Rhodri Glyn Thomas, Cadeirydd CND Cymru, "Fe gostia Trident sawl biliwn o bunnoedd ar adeg pan fo'r gwasanaeth iechyd, ysgolion a'r gwasanaethau cymdeithasol oll yn brin o adnoddau. Mae'n wastraff arian. Wnaeth pobl Cymru ddim pleidleisio o blaid y cynllun a dydym ni mo'i eisiau.
Ar adeg pan fo'r Undeb Sofietaidd ac America yn trafod diarfogi mae Llywodraeth Thatcher yn cynyddu ei harfogaeth niwcliar gan beryglu dyfodol y byd."

## Apêl Cyflog i'r Gweithwyr Ymgyrchu

Ers y rhifyn diwethaf o 'Ymgyrch Cymru', mae nifer o grwpiau, grwpiau cysylltiedig ac unigolion wedi ymateb i'r apêl gyda chyfraniadau.
Mae grwpiau CND Llandrindod, Llantrisant, Abertawe, Llanisien a Blaenau Ffestiniog wedi cyflawni Archeb Banc i'r cyfrif arbennig, ac mae Wrecsam dros Ddiarfogi Niwcliar, CND Penrhyndeudraeth, CND Casnewydd, Grŵp Heddwch Bae Colwyn a Llandudno, CND Dyffryn Dulais, Merched Wrecsam dros Heddwch a Chyngor Cymuned Llanbedrog wedi rhoi cyfraniadau. Mae unigolion yn rhoi 'PUNT Y MIS' gyda rhai yn rhoi llawer mwy.

MAE'R APÊL YN LLWYDDIANT OND MAE ANGEN MWY, YN ARBENNIG TRWY ARCHEB BANC.

Os nad ydych wedi cyfrannu eto fel grŵp neu fel unigolyn, cwblhewch y FFURFLEN APÊL TU MEWN I'R CYLCHLYTHYR YMA. Mae'r Swyddog Ymgyrchu yn ganolog i waith y mudiad, ac mae'r gwaith yma yn dibynnu ar bob un ohonom ni.

RHOWCH YR HYN A FEDRWCH!

## TU MEWN


2 lyfr o dicedi ar gyfer
RAFFL FAWR CND
Ardaloedd Ddi Niwcliar
o gwmpas Ynysoedd Prydain
CEGB yn cyhoeddi Wylfa B:
PAWB yn gwrthwynebu

**AC**

I'r rhai ddaru'i fethu tro diwethaf,
Taflen apêl "£1 y mis", cyfrannwch
nawr, os gwelwch yn dda.

# PWYSIGRWYDD BOD YN DDI-NIWCLIAR

Gwnaethpwyd datganiad fod Cymru'n wlad rydd o arfau niwcliar bron i chwe' mlynedd yn ôl. Beth yw'r pwrpas? Pa wahaniaeth a wnaiff?
Dyma rai o'r cwestiynau a ofynnir nid yn unig gan ein beirniaid ond ein cefnogwyr hefyd. Syt ydym ni yn cyfiawnhau ymgyrchu am Ardaloedd Di-Niwcliar?
Ni ddigwyddodd y cytundeb INF na meirioli'r rhyfel 'oer' mewn gwactod. Un o'r ffactorau oedd barn sylweddol y cyhoedd drwy'r byd yn helpu i ddylanwadu ar Gorbachev a'r feddylfryd Sofietaidd newydd.

## MUDIAD BYD-EANG

Datblygodd y mudiad yn erbyn arfau niwcliar mewn amryw ffyrdd gan gynnwys un bositif iawn sef sefydlu'r Rhanbarthau Di-Niwcliar. Cafodd safiad cadarn Seland Newydd, yng nghyswllt cadw y porthladdoedd yn ddi-niwcliar, le amlwg yn hanes diweddar.
Mae'r mudiad yn ffynnu yn yr U.D.A. hefyd. Cynhaliwyd sawl refferendwm mewn nifer o drefi, dinasoedd a thaleithiau yno er mwyn cyhoeddi eu bod yn ardaloedd di-niwcliar. Yng Ngorllewin Ewrop, defnyddiwyd llwybrau democrataidd er mwyn cyhoeddi statws di-niwcliar pentrefi, trefi a siroedd ac erbyn hyn — mae nifer o ardaloedd yng Nghymru wedi dilyn eu hesiampl. Bu i Manceinion, Sheffield a Glasgow ddatgan eu bwriad i gyhoeddi eu bod hwythau hefyd yn ardaloedd di-niwcliar.
Enillodd brwydr hanesyddol Ynys Belau yn y Môr Tawel i sicrhau cadw ei statws ddi-niwcliar yn wyneb bygythion a dichell yr U.D.A., barch led-led y byd.
Yn Denmark, yn ddiweddar gwaharddodd y Llywodraeth longau yn cario arfau niwcliar rhag defnyddio'r porthladdoedd. Yn yr argyfwng wleidyddol ddilynol cynhaliwyd Etholiad Cyffredinol ac fe gyhuddodd NATO y wlad o "danseilio'r safiad ataliol". Ni fu arfau niwcliar ar dir Denmark ers trigain mlynedd ac er mwyn dangos ei gefnogaeth i bolisi'r wlad, bu i CND Cymru gynnal safiad y tu allan i adeilad Consul Denmark yng Nghaerdydd a throsglwyddo llythyr i'r Consul Anrhydeddus yno.
Gellir mesur effaith y Mudiad dros Ardaloedd Di-Niwcliar oddi wrth agwedd rhai o wledydd Warsaw at y protestiadau a'r ymgyrchu. Mae Bwlgaia ynghyd â Groeg, ei chymydog NATO, wedi ceisio sefydlu Balcans Di-Niwcliar. Daeth y gwrthwynebiad cryfaf i'r syniad o du Twrci.
Cynhelir cyfarfod rhyng genedlaethol i sefydlu rhanbarthau rhydd o arfau niwcliar yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd yr Almaen eleni. Bu'r GDA yn pwyso ers cryn amser am greu goridor rhydd o arfau niwcliar yng nghanolbarth Ewrop. Bydd cynrychiolaeth o'r Dwyrain a'r Gorllewin o gymdeithasau y tu mewn ac o'r tu allan i lywodraeth yn mynychu'r Gynhadledd.
O ystyried y diddordeb byd-eang mewn Rhanbarthau Di-Niwcliar a phwysigrwydd seicolegol ymgyrchu positif, mae'n sicr fod gan Gymru ran allweddol i'w chwarae.
Yn y rhifyn nesaf o Ymgyrch Cymru, ac yn dilyn trafodaeth yn y Cyngor, gobeithir gellir ymhelaethu rhagor ar y sefyllfa bresennol yng Nghymru. Croesewir eich llythyrau a'ch sylwadau.
**Bob Cole.**

# Tuag at Alban Ddi-Niwcliar

## O GLASGOW I EFROG NEWYDD — DIM TRWY LLUNDAIN

Mae CND yr Alban wedi dechrau canolbwyntio'r rhan fwyaf o'i waith ar y thema "ALBAN DDI-NIWCLIAR".
Golyga hyn fod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar y farn 'Albanaidd', dengys polau piniwn a chanlyniadau etholiadau fod y farn honno ar y cyfan (mwy na 50%) yn ochri â'r safbwynt wrth-niwcliar ac yn amlwg yn wahanol i'r farn Seisnig.
Rydym ni hefyd yn rhoi pwyslais newydd ar y cylch 'niwcliar' i gyd, yn enwedig y datblygiadau newydd ynglŷn â chladdu gwastraff niwcliar, a'r diwydiant pliwtoniwm. Mae'r thema "ALBAN DDI-NIWCLIAR" yn gymorth i ni ganolbwyntio ar y manteision cadarnhaol o fod yn ddi-niwcliar: sef, gwella ein gwasanaethau cymdeithasol a chyhoeddus, a'n hamddiffyn ein hunain rhag peryglon niwcliar, ac yn y blaen.

## 90% ARDALOEDD DI-NIWCLIAR

Mae'r sefyllfa wleidyddol yn yr Alban yn wahanol i'r sefyllfa yng Nghymru; yn well mewn rhai ffyrdd ond yn waeth mewn eraill. Nid yw ein awdurdodau lleol di-niwcliar ond yn cynnwys 90% yn unig o boblogaeth yr Alban (er bod rhai awdurdodau yn barod iawn i gynorthwyo) ond mae yma fwy o ddatganoli nag yng Nghymru, a sefydliadau annibynnol Albanaidd mewn llawer o feysydd, yn ogystal ag ymdeimlad cryf iawn o fod yn gymuned cenedlaethol gyda barn sy'n gwrthwynebu i Thatcheriaeth Prydeinig. Mae'r ymgyrch dros ddatganoli pellach mewn Cynulliad Albanaidd wedi cael ei sigo gan, yr elyniaeth rhwng y pleidiau, ond mae'r Albanwyr yn dal i chwenychu mwy o annibyniaeth mewn rhyw ffurf neu'i gilydd..
Mae CND yr Alban wedi penderfynu na fedr anwybyddu natur arbennig y sefyllfa Albanaidd. Yn wir, ein teimlad ni yw y byddai'n anghyfrifol peidio â'i ddefnyddio er lles CND a'r mudiadau gwrth-niwcliar eraill. Ar yr ochr negyddol, rydyn ni'n annog gwrthdystio yn erbyn agweddau pwysig baich niwcliar drom yr Alban. Ar yr ochr gadarnhaol, rydym yn cefnogi pwyllgor cynhwysfawr, sef yr Ymgyrch dros Alban Ddi-Niwcliar. Sefydlwyd yr ymgyrch mewn cynhadledd ym mis Chwefror, gyda'i symbol a'i ddelwedd ei hun, i berswadio pawb bod modd cryfhau protestiadau gwrth-niwcliar gwahanol trwy eu cysylltu â'r slogan cadarnhaol "ALBAN DDI-NIWCLIAR."

## DEMOCRATIAETH A'R CENHEDLOEDD UNEDIG

Fodd bynnag, rydym ni hefyd wedi gorfod wynebu'r ffaith, hyd yn oed petai'r Wladwriaeth Brydeinig Niwcliar yn caniatau mwy o annibynniaeth i'r Alban, na fyddai'n debyg o wneud hynny yng nghyswllt materion niwcliar. Rydym ni hefyd yn gweld peryglon amlwg yn y syniad y gellir datrys problemau niwcliar yr Alban ar ei phen ei hun.
Un ateb (ac mae na rai eraill megis anufudd-dod sifil) fyddai camu dros y llywodraeth Brydeinig a mynd at y Cenhedloedd Unedig yn Efrog Newydd. Rydym ni'n gwneud cais newydd sbon dros hawl cydwybod yng nghyswllt materion niwcliar, gyda'u problemau moesol unigryw a phroblemau tymor hir yr amgylchfyd. Hyd yn hyn rydym ni wedi cysylltu'r cais yma yn syml â dehongliad synhwyrol o Ddatganiad Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig, wedi'i selio ar hawliau'r unigolyn a chan geisio eu hymestyn i holl ddinasyddion cymuned genedlaethol cydnabyddedig o fewn gwladwriaeth niwcliar.
Os bydd y syniad yn peri ddiddordeb byddwn yn parhau ymlaen mewn modd dechnegol trwy amrywiol ffyrdd y gyfraith ryngwladol.

**Mae CND yr Alban yn cyhoeddi cylchgrawn da o'r enw 'Nuclear-Free Scotland'. Cysylltwch â nhw trwy'r cyfeiriad yma: 420 Sanchiehall Street, Glasgow G2 3JD.**



*W.J. Jones*

# ER COF AM HEDDYCHWR W.J. JONES (1907–1988)

Yng nghwasanaeth angladd W.J. Jones, Frongoch, y Bala, yn gynharach eleni, gwnaed casgliad er cof amdano at CND Cymru, a throsglwyddwyd £170 i goffrau'r mudiad yng nghyfarfod y Cyngor ar 18fed Mehefin.
Fe gofia sawl un am W.J. fel athro medrus — bu'n Bennaeth yr Adran Gymraeg a Dirprwy Brifathro Ysgol Uwchradd Llanfyllin, Maldwyn cyn ymddeol; cofia eraill am eisteddfodwr selog — aelod o'r orsedd a Derwydd Gweinyddol Eisteddod Powys. Roedd W.J. yn awdur, bardd, a diddanwr.
Ymysg aelodau'r mudiad heddwch yng nghylch y Bala, cofiwn amdano fel un o sylfaenwyr CND Penllyn. Roedd ymysg y nifer fach a ddaeth at ei gilydd, ar ôl y dangosiad ysgytwol hwnnw o'r ffilm "The War Game' yn Ysgol y Berwyn ddechrau'r 1980au, i ffurfio cangen leol o CND Cymru i ymgyrchu yn erbyn ynfytrwydd arfogaeth niwcliar. W.J. oedd cadeirydd cyntaf y gangen ac yn aelod ffyddlon a brwd o bwyllgor Gŵyl Heddwch Meirion a gynhaliwyd yn y Bala yn 1983.
Nid rhyw ymwybyddiaeth sydyn a barodd i W.J. chwarae rhan yn y mudiad heddwch cyfoes. Cynrychiolydd ydoedd o'r haenen ddofn a chyfoethog o heddychiaeth ddi-gyfaddawd sy'n perthyn i genedl y Cymry. Boed i'r rhodd hwn a gyflwynwyd trwy law ei weddw, Mrs Marged Jones, ein hatgoffa yn y mudiad heddwch o'r sylfaen gadarn hon i'r ymgyrch ddi-arfogi yng Nghymru a amlygodd ei hun yn y gŵr tawel, annwyl hwn.

# Amddiffyn Niwtraliaeth Iwerddon

Gan nad oes yna arfau niwcliar nac ynni niwcliar yn y Weriniaeth mae ymgyrchoedd CND Iwerddon yn wahanol iawn i rai CND Cymru. Prif nod CND Iwerddon ydi atal y Gymuned Ewropeaidd rhag datblygu yn Archwladwriaeth wedi ei harfogi ag arfau niwcliar. Fe fyddai hynny yn chwalu niwtraliaeth y Weriniaeth, yn cynyddu'r tensiynau yn y byd ac yn mynd yn groes i'r holl broses o ddiarfogi. Felly bu CND Iwerddon yn ymgyrchu yn erbyn Deddfwriaeth Un Ewrop fyddai i bob pwrpas wedi dileu ein polisi tramor annibynnol ni. Mae yna oblygiadau mawr i bolisiau amddiffyn a niwlciar Prydain yn ogystal ag Iwerddon yn y Mesur. Ac er i ni golli'r bleidlais yn y refferendwm ar y Ddeddfwriaeth, fe gafodd y Llywodraeth ei gorfodi i ddatgan na fyddai hynny'n effeithio ar ein niwtraliaeth.

Eleni mae CND Iwerddon wedi penderfynu rhoi prawf ar ddatganiad y Llywodraeth drwy lansio ymgyrch fawr i geisio cael cefnogaeth pob plaid i Fesur Ardal Ddi-Niwcliar tebyg i'r un gafodd ei basio yn Seland Newydd. Mi fyddai'r Mesur, pe bai o'n cael sêl bendith, yn gwneud Gweriniaeth Iwerddon yn ardal Ddi-Niwcliar lle y gwaherddid llongau ac awyrennau fyddai'n cario arfau niwcliar, bywydegol neu gemegol, neu a fyddai'n cael eu gyrru gan bŵer niwcliar rhag defnyddio y môr na'r awyr sydd dan oruchwyliaeth y Weriniaeth.

Yn ei hanfod mi fyddai mesur o'r fath yn ei gwneud hi'n ofynnol ar bob llong ac awyren fyddai'n defnyddio ardal forwrol neu awyr Iwerddon, i dyngu nad oes arfau niwcliar ar eu byrddau. Byddai gan Luoedd Diogelwch y wlad wedyn yr hawl, pe dymunent, i archwilio'r llongau a'r awyrennau i wneud yn siŵr mai dyna fyddai'r achos. Gan fod y rhan fwyaf o wladwriaethau sydd ag arfau niwcliar yn eu meddiant yn gyndyn o wadu na chadarnhau a oes ganddynt arfau niwcliar neu beidio ar fyrddau eu llongau a'u hawyrennau, mi fyddai polisi o'r fath o leiaf yn gwneud pethau'n anhwylus iddyn nhw.

Mae ardal forwrol Iwerddon wedi cael ei ymestyn yn ddiweddar o 3 i 12 milltir, ac er y byddai'n anodd gweithredu deddfwriaeth o'r fath, fe fyddai o leiaf yn symbol i'r byd o ymrwymiad pobol Iwerddon i heddwch a diarfogi. Fe fyddai hefyd yn fodd i gadw llongau niwcliar rhag ymweld â'n porthladdoedd. A chan fod llawer o longau pysgota wedi cael trafferthion efo llongau tanddwr mae'r holl fater yn bwnc llosg hyd yn oed ar y lefel yna, heb sôn am y posibilrwydd a'r peryg o ddamwain niwcliar ym môr Iwerddon. Dros y blynyddoedd mae 12,000 o awyrennau rhyfel wedi hedfan dros y Weriniaeth ac mae'n anodd iawn credu nad oedd yr un ohonyn nhw wedi eu harfogi ag arfau niwcliar. Mi fyddai'n amhosib i unrhyw awyren groesi'r gofod hwn yn ddiogel heb gymorth Maes Awyr Shannon. Fyddai gweithredu polisi Di-Niwcliar yn yr awyr felly ddim yn anymarferol o gwbwl.

Mae'n holl bwysig pwysleisio y byddai Deddfwriaeth o'r fath yn berthnasol i BOB UN gwlad sydd ag arfau niwcliar yn ei meddiant. Mi fyddai hynny yn cadarnhau ac yn atgyfnerthu ein hannibynniaeth a'n niwtraliaeth mewn ffordd gyhoeddus iawn ac ymarferol. Fe fyddai hefyd yn mynegi ein gwrthwynebiad clir ni i unrhyw ymgais yn y dyfodol i gael cynlluniau amddiffyn gydag arfau niwcliar wedi eu sylfaenu ar y Gymuned Ewropeaidd. Iwerddon fyddai'r ail wladwriaeth yn unig yn y byd i gymryd safiad o'r fath — Seland Newydd oedd y gyntaf — a hi fyddai'r gyntaf yn Ewrop i wneud ymrwymiad o'r fath dros heddwch byd a diarfogi. Os oes yna bobol yng Nghymru fyddai'n hoffi bod o gymorth drwy sefydlu grŵp cefnogi a fyddech cystal â chysylltu â: Roger Cole, Sectretary, Nuclear Free Zones Committee, 29 Lower Baggot Street, Dublin 2, Ireland. Ffôn: (01) 613987.

# Ardaloedd Di-Niwcliar a Gogledd Iwerddon

Bu grwpiau lleol o CND yn ogystal â mudiadau eraill gwrth-niwcliar yn ymgyrchu yn gynnar yn yr wythdegau i geisio creu ardaloedd di-niwcliar led led Gogledd Iwerddon. O fewn blwyddyn neu ddwy roedd cynghorau lleol yn Belfast, Derry, Omagh, Fermanagh a Newry wedi datgan fod eu hardaloedd nhw yn ddi-niwcliar. Mewn talaith lle nad oes llawer o sefydliadau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chynlluniau ymladd rhyfel niwcliar, roedd mudiad oedd yn ymgyrchu dros ardaloedd di-niwcliar yn rhoi'r cyfle ar raddfa leol i gynyddu ymwybyddiaeth pobol.

Ers canol yr wythdegau tan 'leni fodd bynnag, mae'r mudiad heddwch yma wedi newid ei bwyslais a chanolbwyntio ar faes arall. Mae yna amryw o resymau pam y penderfynwyd newid cyfeiriad. Mewn ambell i achos methwyd â chael cefnogaeth cynghorau ynglŷn â chlustnodi eu llibart nhw yn ddi-niwcliar a chafodd rhai o'r ymgyrchwyr eu dadrithio. Mewn llefydd eraill lle y llwyddwyd i berswadio cynghorau i basio cynigion di-niwcliar roedd hi'n anodd ofnadwy dylanwadu arnyn nhw i gymryd camrau ymarferol pellach.

## BELFAST DDI-NIWCLIAR

Mae Belfast yn enghraifft deg. Ym mis Chwefror 1982 y pasiwyd y cynnig yn dweud fod y ddinas yn ardal ddi-niwcliar. Ond llwyddwyd i wneud hynny yn unig am fod gwleidyddion Unoliaethol, ar y pryd, yn gwrthod, ar egwyddor, mynychu cyfarfodydd y cyngor! Unwaith y daeth yr Unoliaethwyr yn ôl i'r Siambr roedd hi'n gwbwl amhosib gwneud unrhyw fath o gynnydd. Mae'r hyn ddigwyddodd mewn cyfarfod o'r Cyngor fis Mai pan wrthodwyd rhoi caniatad i CND Gogledd Iwerddon gynnal ein gŵyl haf arferol yn un o barciau'r ddinas yn adlewyrchu beth ydi'r sefyllfa ar hyn o bryd yno.

Mae yna arwyddion gobeithiol er hynny y bydd holl fater ardaloedd di-niwcliar yn dod yn bwysig unwaith eto o bosib yng Ngogledd Iwerddon. Mae pwysigrwydd cynyddol y syniad o gael corridor di-niwcliar drwy ganol Ewrop a llwyddiant mawr Mudiad Heddwch Autorua (Seland Newydd) yn sicr yn fy marn i o ail gynnau'r bwrdfrydedd ar raddfa leol.

Ond llawer pwysicach ar hyn o bryd yw ymgyrch CND Iwerddon i gael polisi tramor tebyg i un Autorua — polisi o niwtraliaeth ymosodol. Bydd CND Gogledd Iwerddon yn cefnogi'r ymgyrch hon i'r eithaf. Ac wedyn mae yna lwyddiannau lleol — mae Cyngor Omagh ar hyn o bryd yn gwrthwynebu cynlluniau i godi Byncar Amddiffyn Sifil mawr ar gyrion y dre'. Ac — yn bwysig iawn — mae CND Gogledd Iwerddon yn dwysau ei hymgyrchu ac yn cynhyrchu'r cylchlythyr gorau ers blynyddoedd sy'n gwerthu fel slecs. A'i enw fo? 'Nuclear Free'!

**Stephen Mills,**
**Cadeirydd CND Gogledd Iwerddon.**


## SAIN DROS HEDDWCH

sain

*y gwasanaeth recordio cyflawn*

Yn Gymraeg: BRYN TERFEL - Caset £5.99.
Y BRODYR GREGORY - Caset £5.99.
MERCHED UWCHLLYN - Caset £5.99.
MERCHED Y GARTH - Caset £5.99.
CANEUON HEDDWCH - Caset / Record £5.49.
In English: KEVIN LITTLEWOOD 'Rainbow Warriors' - Cassette £5.99.
FRANK HENNESSY 'Thoughts & Memories' Cassette / Record £5.99. (Also on CD £9.50).
'GATES OF GREENHAM' - Double Cassette / Record £9.50.

Catalog - SAIN, LLANDWROG, CAERNARFON, GWYNEDD. (0286) 831111.



*Cymdogion anesmwyth: Atomfa Trawsfynydd a phentref Gellilydan.*
*Uneasy neighbours: Trawsfynydd Power Station and Gellilydan village.*

# HILIAETH A'R CYSYLLTIAD NIWCLIAR

## Ochr arall dauganmlwyddiant Awstralia: Joan Wingfield a'i hymweliad â Chymru

"Mae 1988 yn flwyddyn o ddathlu i bobl Awstralia," felly meddai llywodraeth Awstralia ac mae'r cyfryngau ym Mhrydain wedi mynd dros ben llestri ynghylch pob dim o'r Antipodes, o'r rhaglen 'Neighbours' i gwrw Fosters.

Ond un ochr i'r geiniog yn unig ydy hon, fel yr eglurodd Joan Wingfield, dynes aboriginal o'r Grŵp Cynghrair '88 wrth gynulleidfaoedd yng Nghymru ym mis Mai. Lluniodd ddarlun o Awstralia heddiw sydd â llawer yn gyffredin efo De Affrica yn y ffordd mae'n trin y brodorion gwreiddiol. Mae pobl Joan, llwyth y Kokatha o Dde Awstralia, yn gyffredin â phobloedd aboriginal, wedi gorfod dioddef trais bwriadol, rhagfarn, ac weithiau casineb pur. Maen nhw wedi colli eu tiroedd i amaethwyr a chwmnïoedd mwyngloddio rhyngwladol, yn enwedig y rheini sy'n chwilio am Wraniwm.

Un o'r cwmnïoedd rhyngwladol mwya ydy ein British Petroleum ni (sic) sydd yn prysur ddinistrio tiroedd traddodiadol y bobl Kokatha yn Roxby Downs. Eglurodd Joan eu bod nhw nid yn unig yn distrywio mannau Cysegredig ond hefyd ynllygru tir a chyflenwad dŵr ardal sydd yr un faint ag Ynysoedd Prydain.

Yn ogystal ag ymladd yn erbyn lobi pŵerus y mwyngloddwyr maen nhw hefyd yn ymladd i ddarganfod pam y bu i dros gant farw yn y ddalfa. Er i'r llywodraeth wario miliynau o ddoleri yn ymchwilio i farwolaeth y baban, Azaria Chambrlain, nid yw yn gwario fawr ddim ar ymchwilio i'r marwolaethau eraill yma.

Mae Awstralia yn wlad gyfoethog, ond mae'r bobl dduon yn byw mewn amgylchiadau tebyg i amgylchiadau y trydydd byd. Mae mwy o bobl yma yn dioddef o'r gwahanglwyf nag mewn unrhyw fan arall yn y byd. Prin iawn yw'r cyflenwadau o ddŵr glân, mae lefel diwethdra'n uchel, mae llawer yn ddibynnol ar alcohol a ogleuo glud. Mae cyfleusterau byw yn erchyll, ...mae'r rhestr yn ddiddiwedd.

Dywedodd Joan ei bod yn teimlo'n agos iawn at bobl Cymru yn eu hymgyrch dros eu hiaith a'n diwylliant. Bu iddi fwynhau'r noson ym Mlaenau Ffestiniog yn enwedig am iddi fod wedi clywed cymaint o Gymraeg yn cael ei siarad. Dywedodd fod hynny'n rhoi gobaith iddi yn ei hymdrech i achub ei hiaith ei hun. Cadarnhawyd yn y cyfarfod bod cwmni B.P. yn noddi diwrnod yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Roedd hi hefyd yn dymuno'n dda i bobl Cymru yn eu hymgyrch dros rwystro adeiladu Adweithydd PWR yn Nhrawsfynydd yr Wylfa a Hinkley, Point. Eglurodd ei bod yn bwysig i'w llwyth hi fod yr ymgyrch i atal adeiladu y gorsafoedd yma yn llwyddo oherwydd bod y Bwrdd Cynhyrchu Trydan wedi arwyddo cyntundeb i brynu Wraniwm Roxby Downs. Bydd yr wraniwm yma, yn y pen draw yn dychwelyd i'w gwlad wrth i'r arfau niwcliar gael eu profi yn Woomera.

**Penni Bestic.**

**Dylid anfon llythyrau i wrthwynebu y bwriad i adeiladu y gorsafoedd yma at Peter Walters, Cadeirydd BP plc., Brittanic House, Moor Lane, Llundain EC2 a'r Arglwydd Marshall, Cadeirydd C.E.G.B., 15 Newgate Street, Llundain EC1.**

# RAFFL FAWR "UN BYD"

Mae raffl CND Prydain yn ffynhonell arian pwysig bob blwyddyn — eleni bydd grwpiau Cymreig yn elwa yn ogystal a CND Cymru.

Y llynedd, £1,200 oedd y swm a dderbyniodd yr Ymgyrch yng Nghymru, ond mae llwyddiant y raffl yn dibynnu arnom **ni** i werthu'r tocynnau ac i anfon yr arian i'r cyfeiriad yn **Llundain** ar y tocynnau.

Gyda gwobrau fel gwyliau yn y Carribean (ac un yn Rhaeadr!) chewch chi ddim problem gwerthu'r tocynnau! Mae 'na un llyfr ym mhob rhifyn aelodau o "Ymgyrch Cymru", os 'da chi'n gallu gwerthu mwy, mae nhw ar gael yn rhad ac am ddim oddi wrth Veronica Wood, 56 Bryn Aeron, Dyfnant, Abertawe SA2 7UX.

# PAWB

Mae ymgyrch newydd — PAWB (Pobol Atal Wylfa B) — wedi'i ffurfio fel ymateb i gynlluniau cyhoeddiedig y Bwrdd Cynhyrchu Trydan i godi Atomfa newydd ar Ynys Môn.

Lansiwyd yr ymgyrch mewn cyfarfod cyhoeddus yn Llangefni a gafodd ei drefnu i gyd-fynd ag ymweliad llong Greenpeace y 'Moby Dick' â'r Ynys.

Yn ôl cynlluniau'r CEGB, bydd gweddillion ymbelydrol yr atomfa Magnox presennol yn yr Wylfa yn cael eu gadael ar y safle am dros 100 mlynedd. **Ond** yn Llangefni fe rhybuddiodd arbenigwr niwcliar, John Large, am bosibiliadau gwaeth byth.

## PRIS Y PWR

Mae'r CEGB eisiau adeiladu harbwr dŵr tyfn newydd ger yr Wylfa fel rhan o'r prosiect PWR — rhywbeth sydd ddim yn cael ei hystyried yn Sizewell na Hinkley Point, lle adeiladir y ddau PWR cyntaf ym Mhrydain. Yn ôl John Large, mae'r harbwr ar gyfer **mewnforio** darnau ymbelydrol dros ben, o hen atomfeydd eraill o gwmpas Prydain.

Yn dilyn cyhoeddiad NIREX bod Ynys Môn yn lle addas i gladdu gwastraff niwcliar, darganfuwyd pryderon a gwrthwynebiad eang yn yr ardal. Cafwyd rhybydd gan nifer o'r siaradwyr yng nghyfarfod Llangefni, bod rhaid i bawb sy'n erbyn gwastraff niwcliar wrthwynebu PWR yn yr Wylfa. Hyd yn hyn, mae'r grŵp gwrthwynebu NIREX ar Ynys Môn wedi gwrthod trafod Wylfa B.

## ANGEN EICH CEFNOGAETH

Bwriad PAWB yw ymweld â phob pentref a chymuned ar yr Ynys gan gynnal cyfarfodydd, darparu gwybodaeth a hyrwyddo celloedd lleol PAWB ym mhob ardal. Hefyd mae'r grŵp yn galw am archwiliad manwl i'r holl ffyrdd ymarferol o gynhyrchu ynni na fyddent yn ymharu ar yr amgylchedd.

**Mae PAWB eisiau cefnogaeth ariannol ac ymarferol gan bobl o bob rhan o Gymru. Cysylltwch â Sioned Huws, 10 Tan y Bonc, Porthaethwy, Ynys Môn.**

# Ymchwiliad Hinkley Point: Patrwm i'r Wylfa?

**Bydd yr ymchwiliad cyhoeddus i'r Adweithydd Dŵr Dan Bwysau (P.W.R.) yn Hinkley Point, Gwlad yr Haf, yn bwysicach o safbwynt dyfodol ynni niwcliar yng ngwledydd Prydain nag Ymchwiliad Sizewell.**

Dyna farn Robin Grove-White, cyn-gyfarwyddwr Cyngor Gwarchod Lloegr Wledig, pan siaradodd mewn cyfarfod a drefnwyd gan y Gynghrair Wrth-Niwcliar Gymreig yng Nghaerdydd.

Bwriadwyd i Ymchwiliad Sizewell fod yn drwyadl a holl-gynhwysfawr fel y medrai'r Llywodraeth hawlio fod holl ddyfodol cynlluniau niwcliar gwledydd Prydain wedi cael eu hystyried yn drylwyr a theg.

Ymchwiliad Hinkley yw'r cyntaf i gael ei gynnal yn unol â'r rheolau newydd, caeth a fwriadwyd i gyfyngu ar y drafodaeth a chyflymu'r broses gynllunio. Yn ôl Robin Grove-White, bydd yn batrwm ar gyfer pob ymchwiliad Adweithydd Dŵr Dan Bwysau yn y dyfodol, yn cynnwys unrhyw ymchwiliad yn yr Wylfa.

Cynhaliwyd cyfarfod y Gynghrair Wrth-Niwcliar Gymreig ddau ddiwrnod ar ôl y cyfarfod 'cyn-ymchwiliad' cyntaf a alwyd gan Michael Barnes, Cadeirydd ymchwiliad Hinkley Point. Yn ystod tridiau'r cyfarfod hwnnw, dadleuodd y Bwrdd Cynhyrchu Trydan y dylai'r ymchwiliad (fydd yn cychwyn ym mis Hydref) anwybyddu llawer o'r materion a wyntyllwyd yn Sizewell. Dadleuodd y gwrthwynebwyr — gan gynnwys y Gynghrair Wrth-Niwcliar Gymreig — y dylai'r cadeirydd ganiatau trafodaeth eang ar bob pwnc, gan gynnwys economeg, diogelwch a gwaredu gwastraff niwcliar.

**Hyd yn hyn nid yw Michael Barnes wedi cyhoeddi ei benderfyniad, ond os penderfyna o blaid ymchwiliad cyfyng (fel y gobeithia'r Bwrdd Cynhyrchu Trydan Canolog) gall ddisgwyl amser caled gan y gwrthwynebwyr yn yr ail gyfarfod cyn-ymchwiliad ar Orffennaf 12fed.**

Bydd rhaid i'r cadeirydd benderfynu a yw am gynnal rhan o'r ymchwiliad yng Nghymru (lle casglwyd dros draean enwau'r 10,000 sy'n gwrthwynebu'r atomfa newydd). Mae eisoes wedi dweud ei fod yn ystyried cynnal sesiwn anffurfiol yn Ne Morgannwg ond y mae'r Gynghrair Wrth-Niwcliar eisiau sicrwydd ynglŷn â statws y dystiolaeth a gyflwynir dan amodau o'r fath.

## PARHAWN Â'R GWRTHWYNEBU!

Y cyngor a roddi'r i wrthwynebwyr yng Nghymru yw iddynt barhau'n rhan o'r broses ymchwilio a mynd i Cannington yng Ngwlad yr Haf i ddangos mor gryf yw gwrthwynebiad pobl gyffredin i ynni niwcliar.

Derbynnir gwrthwynebiadau newydd gan Gyngor Sir Gwlad yr Haf a'r Adran Ynni i fyny at gychwyn yr ymchwiliad, felly nid yw'n rhy hwyr i leisio'ch barn. Yn y cyfamser mae ymgyrch 'Stopiwch Ehangu Hinkley' y Gynghrair Wrth-Niwcliar yn parhau y tu allan i furiau'r ymchwiliad gyda'r nos o gynyddu gwrthwynebiad y cyhoedd i ynni niwcliar.

**Dangosodd arolwg a gynhaliwyd gan y Gynghrair Wrth-Niwcliar a Greenpeace yng Nghaerdydd ddiwedd Mai, fod 76% o'r rhai a holwyd yn gwrthwynebu Hinkley 'C' ac 84% yn credu fod damwain ddifrifol yn bosib.** Petai damwain o'r fath yn digwydd, credai 72% y dioddefai De Cymru a chredai 74% na fedrai'r awdurdodau eu hamddiffynu. Roedd y canlyniadau hyn yn cadarnhau ffigurau arolwg tebyg a gynhaliwyd yn y ddinas gan Blaid Cymru tua mis ynghynt, **a ddarganfu fod 69% yn gwrthwynebu Hinkley 'C'** ac 82% yn credu na fedrai'r gwasanaeth argyfwng ymdopi â damwain niwcliar ddifrifol yng Ngwlad yr Haf.

# IEUENCTID CND CYMRU AR WAITH!

Roedd wythnos Ieuenctid dros Heddwch yn fenter uchelgeisiol iawn ar gyfer yr wythnos gynta o weithredu. A dim ond megis dechrau mae'r gwaith. Mae gan Ieuenctid CND Cymru botensial gwych, gyda dros bum cant o aelodau o CND Cymru dan ddwy ar hugain oed. Ni fu ymgyrch yn y gorffennol ddenu aelodau ifainc, ni fu cydweithredu rhwng y grwpiau bychain sy'n bodoli yn yr ysgolion (ac sydd yn bur anaml â chysylltiad ag Ieuenctid CND Cymru); nag ychwaith unrhyw ymgyrchu trefnus.

Gallasai Mudiad Ieuenctid CND Cymru o'i drefnu a'i gydgysylltu'n dda dynnu llawer o bobl ifainc i gyfrannu at waith CND yng Nghymru — pobl sy'n rhy ifainc i gofio am oes aur 1983 heb sôn am 1958. Mae ar CND Cymru angen cangen ieuenctid gref a huawdl, i gyfrannu egni a brwdfrydedd i'n hymgyrch.

Os ydych chi dan ddwy ar hugain oed ac â diddordeb yn CND Cymru, rwan ydy'r amser i fwrw iddi. Rydym ni eisoes yn cynllunio ar gyfer diwedd yr haf a'r hydref, felly os oes gennych chi syniadau, problemau, awgrymiadau, cwestiynau ynghylch Ieuenctid CND Cymru, cysylltwch â: Sara Davies, Gwyndy, Llanharri, Pontyclun, Canol Morgannwg CF7 9LP.
Ffôn: 0443-224378.

# Darlithoedd Henry Richard



Mae CND Cymru yn cyhoeddi yn llawn, darlith a roddodd Gwyn Alf Williams ar ddechrau'r flwyddyn, ar Henry Richard.

Bydd y pamffled dwyieithog allan ar gyfer yr Eisteddfod yng Nghasnewydd, ac fe fydd yr Athro Williams yn bresennol mewn cyfarfod ar y maes i'w lansio.

Bydd y pamffled yn gyflwyniad ardderchog i hanes y dyn nad yw'n adnabyddus i'r mwyafrif o bobol. Beth am brynu copïau i'r llyfrgell a'r ysgolion lleol?

**Archebwch nawr oddi wrth James Stewart, 22 Trevethick Street, Caerdydd CF1 8EB.**

Hefyd, cynhelir oedfa wrth y gofeb yn Nhregaron am 2 o'r gloch dydd Sadwrn, Awst 20, gyda Darlith Goffa Henry Richard i ddilyn yn y Neuadd am 3 o'r gloch gan yr Athro Ieuan Gwynedd Jones. Dowch yn llu. Te wedi'r ddarlith.

## CYFEIRIADAU NEWYDD

Mae Swyddog y Wasg, Mary Jones, wedi symud i Abertawe. Ffôn: (0792) 701170.
Yr Ysgrifennydd Cyffredinol newydd yw Veronica Wood, 56 Bryn Aeron, Dyfnant, Abertawe SA2 7UX. Ffôn: (0792) 206617.
Gweithiwr Ymgyrchu CND Cymru yw James Stewart; cysylltwch â fo os oes angen cymorth gydag ymgyrchu. Ffôn: Caerdydd (0222) 238357.




Vernica Wood

## Ein Hysgrifennydd Newydd

Veronica Wood, o Ddyfnant ger Abertawe, yw ein Hysgrifennydd Cyffredinol newydd. Yn gyn-athrawes gyda phedwar o blant, mae rhain, yn ei geiriau ei hun "yn fy nghymell i drio amddiffyn pob plentyn rhag bygythiad niwcliar ein hoes."
Fel aelod Llafur o Gyngor Cymuned Dyfnant, ac fel cyd-drefnyddes Cynghrair Ddi-Niwcliar Gorllewin Morgannwg, mae hi wedi gweithio'n galed i gadarnhau polisi amddiffyn ei phlaid a safiad ddi-niwcliar ei sir.
Yn ddiweddar, fe gryfhawyd ei hymroddiad gan wythnos yng ngharchar Pucklechurch am wrthod talu dirwy ar ôl torri'r ffens ym Mreudeth. Ymysg miloedd o wragedd eraill ym 1982 amgylchynodd Comin Greenham. "O'r profiad hwn daeth ymwybyddiaeth dyfnach am y modd y mae paratoadau niwcliar yn effeithio ar bob agwedd o'n bywyd led led y byd — ac yn arbennig ar bobl y Môr Tawel lle mae'r ynyswyr eisoes yn marw o glefydau niwcliar."
Veronica yw cysylltwraig CND Cymru gyda'r grwpiau a'r aelodau ar holl materion gweinyddol. Fe fydd hi'n gweithio'n glos gyda James Stewart, ein Swyddog Ymgyrchu Newydd, ac fe allwch gysylltu â hi yn y cyfeiriad isod: 56 Bryn Aeron, Dyfnant, Abertawe SA2 7UX. Ffôn: (0792) 206617.

## LLYTHYRAU, OS GWELWCH YN DDA

Hoffwn gael eich ffotograffiau, hysbysebion a chyfraniadau, ond yn enwedig eich llythyrau.
Rhestrir digwyddiadau CND am ddim, ond mae hysbysebion yn £15 am wythfed tudalen, £25 am chwarter tudalen. Anfonwch at Ymgyrch Cymru, Tŷ Isaf, Ffestiniog, Gwynedd, erbyn Medi 1af.
Argraffu gan Wasg Eryri, Bethel, Caernarfon, Gwynedd ar bapur wedi'i ail gynhyrchu.



*Colomennod ar ffens Aldermaston ar ôl ein gwrthdystiad ar Ebrill 4ydd.*
*Doves on the Aldermaston fence at our April 4th demonstration.*

# Dyddiadur

*GORFFENNAF*
*23—Awst 9:* Gŵyl Heddwch De Morgannwg. Manylion gan y Peace Shop, Caerdydd 489260.

*30:* Gorymdaith dros Heddwch i Genedlaeth y Rhyfel. Ymgynnull tu allan i swyddfeydd Sir De Morgannwg, Ffordd Casnewydd, Caerdydd. Gorymdaith, gosod torch o flodau. Ffôn: (0446) 34452.

*AWST*
*1—7:* Stondin CND Cymru ac arddangosfa yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mharc Tredegar, Casnewydd. Lansio llyfryn am Henry Richard.

*6:* Diwrnod Hiroshima.

*9:* Diwrnod Nagasaki.

*20:* Dathliad Canmlwyddiant marw Henry Richard, Tregaron. Gwasanaeth a Darlith o 2 o'r gloch ymlaen. Ffôn: Cymdeithas y Cymod (0978) 860835.

*MEDI*
*4:* Cyfarfod cynrychiolwyr WANA, Bryn Afon, Rhaeadr, 11 o'r gloch. (0982) 4362.

*10:* Cyngor CND Cymru — Brynafon, Rhaeadr. 11.00 a.m. Croeso i bawb. (0792) 206617.

*24:* Cynghrair Rhyngwladol Menywod dros Heddwch a Rhyddid, Caerdydd.

*25:* Seminar Môr Iwerddon yng Nghaerdydd. (0222) 238357.

# Diary

*JULY*
*23—August 9:* South Glamorgan Peace Festival. Details from Peace Shop, Cardiff 489260.

*30:* March for Peace of the War Generations, 2 p.m. Assemble South Glamorgan County H.Q., Newport Road, Cardiff. 2.30 p.m. March and wreath laying. Phone: George Crabbe (0446) 34452.

*AUGUST*
*1—7:* CND Cymru stall and exhibition at National Eisteddfod, Tredegar Park, Newport, Gwent. Launch of Henry Richard booklet. (0222) 238357.

*6:* Hiroshima Day.

*9:* Nagasaki Day.

*20:* Henry Richard Commemoration Service and Lecture, Tregaron. From 2 p.m. Phone Fellowship of Reconciliation in Wales on (0978) 860835.

*SEPTEMBER*
*4:* W.A.N.A. delegates meeting, Bryn Afon, Rhaeadr. 11 a.m. (0982) 4362.

*10:* Cyngor CND Cymru, Bryn Afon, Rhaeadr, 11 a.m. All Welcome (0792) 206617.

*24:* Women's International League for Peace and Freedom Day, Cardiff.

*25:* Irish Sea Seminar, Cardiff. (0222) 238357.


**Peace Shop**
56 MACKINTOSH PLACE, ROATH, CARDIFF
Tel: 489260
*Postcards, Greetings Cards, Posters, Jewellery, T-Shirts, Traidcraft Coffee, Badges, Stickers, New Mugs*
Open 10.00 a.m. to 5.00 p.m. Tuesday to Saturday
**VEGETARIAN CAFE**
Open 11.00 a.m. to 3.00 p.m. Tuesday to Saturday
REGULAR SATURDAY STALL IN HAYES
INFO from Peace Shop or from Hayes caravan (HELPERS PLEASE!!)


FFURFLEN AELODAETH AR GYFER EICH FFRINDIAU
MEMBERSHIP FORM FOR YOUR FRIENDS

Enw/Name .............................. Llythrennau bras/capital letters
Cyfeiriad/Address ..............................
..............................
Sir/County .............................. Côd Post/Postcode........

**Membership/Tâl Aelodaeth**
Oedolyn/Adult £9 — Cwpl/Couple £12
Myfyriwr/Student £3 — Ieuenctid/Youth £1
Heb waith a phensiynwyr/Unwaged and pensioners £2

Dymunaf roi rhodd/I wish to make a donation £...
Am aelodaeth amgaeaf/For membership I enclose £...

Gwneler sieciau'n daladwy a danfoner i:/Make cheques payable and sent to:
*CND Cymru, 56 Bryn Aeron, Dyfnant, Abertawe/Swansea SA2 7UX*

## NEW ADDRESS

Our Press Officer, Mary Jones, has moved to Swansea.
Tel: (0792) 701170.
The new General Secretary is Veronica Wood, 56 Bryn Aeron, Dunvant, Swansea SA2 7UX.
Tel: (0792) 206617.
CND Cymru's full-time Campaigns Worker is James Stewart; contact him for any help with campaigning on Cardiff (0222) 238357.

## FREEFONE OPINION LINES

Many newspapers and broadcasting companies now have 'Freefone' numbers. Those with the prefix 0800 are dialled direct, others with 'Freefone' prefix are obtained through the operator. Either way, the call doesn't cost a penny. Some are listed here — let us know of any other.
- BBC Wales 0800 272 535
- Guardian 0800 289 682
- Independent 0800 181 373
- Telegraph 0800 289 251
- Today 0800 010 900
- Times group 0800 010 373
- Express group 0800 353 000
- Mail group 0800 010 111
- Mirror Freefone 237

## Our New General Secretary

CND Cymru's new General Secretary is Veronica Wood from Dunvant near Swansea. An unemployed teacher with four children, her involvement in the peace movement has been in her own words, "motivated by the desire to give all children a future, free from the threat of nuclear annihilation."
As co-ordinator of West Glamorgan Nuclear Free Alliance, and as a Labour Party Community Councillor, she has been active in supporting her county's Nuclear Free Zone stance, and her party's non-nuclear defence policy.
Her commitment was recently strengthened by a week's stay in Pucklechurch remand centre for non-payment of a Brawdy Snowball fine. With thousands of other women in 1982 she blockaded and encircled Greenham Common. "Out of Greenham came an increased awareness that nuclear war preparation touches every aspect of our lives and those of people the world over; in particular the Pacific where they are already dying as a result of the nuclear holocaust."
Veronica will be CND Cymru's first contact for groups and members on all administrative matters. She will work closely with our new Campaigns Worker James Stewart, and can be contacted at this address: 56 Bryn Aeron, Dunvant, Swansea SA2 7UX. Telephone: (0792) 206617.

## LETTERS, PLEASE!

We need your photographs, contributions, adverts, but most of all your letters.
CND events are listed free of charge, but adverts are £15 for a ⅛ page, £25 for ¼ page.
Send to Campaign Wales, Tŷ Isaf, Ffestiniog, Gwynedd, by September 1st.
Campaign Wales is Printed by Eryri Printers, Bethel, Caernarfon, Gwynedd, on recycled paper.